# Arwain asesiadau sicrhau ansawdd

## Trosolwg

Mae’r safon hon yn nodi’r meini prawf ar gyfer arwain asesiadau sicrhau ansawdd. Mae’n cynnwys nodi gofynion sicrhau ansawdd y gwasanaeth, asesu’r ddarpariaeth, a rhoi adborth i ddarparwr y gwasanaeth.

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

1. paratoi gwybodaeth berthnasol am y gwasanaeth, gan gynnwys adroddiadau o arolygiadau blaenorol
2. meithrin perthynas broffesiynol ac ymddiriedaeth â darparwyr gwasanaethau
3. sicrhau bod y meini prawf sicrhau ansawdd ar gael i ddarparwyr
4. esbonio cwmpas a phwrpas arolygiadau a sut bydd y canfyddiadau'n cael eu rhannu a'u cyhoeddi
5. arwain a chefnogi darparwyr i hunanwerthuso a gwella'n barhaus
6. cydweithio â darparwyr i nodi ffynonellau tystiolaeth sy'n gysylltiedig â meini prawf sicrhau ansawdd
7. gweithio mewn partneriaeth â darparwyr i gynllunio arolygiadau
8. cadarnhau bod tystiolaeth sicrhau ansawdd ar gael gan ddarparwyr
9. arwain y gwaith o asesu a gwerthuso prosesau sicrhau ansawdd
10. cadarnhau bod tystiolaeth yn ddilys, yn ddibynadwy ac yn ddiduedd
11. arsylwi ar arferion ac ymgysylltu ag unigolion ac eraill i werthuso eu profiadau a'u barn ynghylch ansawdd y gwasanaeth
12. nodi bylchau mewn tystiolaeth â darparwyr a dod o hyd i ffynonellau eraill
13. sicrhau bod polisïau a gweithdrefnau yn cydymffurfio â gofynion rheoliadol ac arferion gorau
14. nodi meysydd allweddol o arferion sicrhau ansawdd effeithiol, pwyntiau gweithredu a meysydd i'w gwella
15. paratoi adroddiadau â chanlyniadau sy'n seiliedig ar dystiolaeth, arferion gorau, ac argymhellion ar gyfer gwella
16. rhoi adborth adeiladol y mae modd gweithredu arno i ddarparwyr
17. cydweithio â darparwyr i gefnogi gwelliant ac arloesedd a chyfeirio at arferion da
18. rhoi cyfleoedd i ddarparwyr ymateb i adroddiadau a gofyn cwestiynau
19. cytuno ar amserlenni gyda darparwyr ar gyfer rhoi gwelliannau ar waith a'u hadolygu
20. cwblhau'r cofnodion a'r adroddiadau sydd eu hangen ar gyfer arwain asesiadau sicrhau ansawdd
21. myfyrio ar sut y gwnaethoch chi gyflawni eich rolau a'ch cyfrifoldebau wrth arwain asesiadau sicrhau ansawdd

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

*Mae angen i chi wybod a deall:*

1. sut mae sefydlu perthynas broffesiynol ac ymddiriedaeth
2. sut mae hybu perchnogaeth o ran hunanwerthuso a gwella'n barhaus
3. pwysigrwydd hunanwerthuso yn drylwyr, yn systematig ac yn dryloyw
4. pwysigrwydd cydweithio â darparwyr i nodi ffynonellau tystiolaeth posibl sy'n gysylltiedig â meini prawf sicrhau ansawdd
5. technegau ar gyfer datrys problemau a meddwl yn flaengar
6. egwyddorion asesu risg a rheoli risg wrth arwain asesiadau sicrhau ansawdd
7. egwyddorion cymryd risgiau cadarnhaol wrth arwain asesiadau sicrhau ansawdd
8. yr ystod a'r math o dystiolaeth y gall darparwyr ei chyflwyno i ddangos sicrwydd ansawdd
9. gwerth gwahanol fathau o dystiolaeth o ran dangos meini prawf sicrhau ansawdd
10. sut mae cadarnhau bod tystiolaeth yn ddilys, yn ddibynadwy ac yn ddiduedd
11. sut mae arwain o ran urddas, caredigrwydd a thosturi mewn perthynas ag asesiadau sicrhau ansawdd
12. sut mae arsylwi ar ymarfer heb amharu ar weithgareddau gwaith, unigolion neu eraill
13. pwysigrwydd arsylwi ar ymarfer gydag unigolion ac eraill
14. pwysigrwydd ymgysylltu ag unigolion ac eraill i gael eu barn a gwerthuso ansawdd y gwasanaeth
15. sut mae arwain o ran defnyddio egwyddorion sy'n ystyriol o drawma yn ystod asesiadau sicrhau ansawdd
16. dylanwad niwrowahaniaeth ac anghenion ychwanegol o ran cymorth ar asesiadau sicrhau ansawdd
17. dulliau gwerthuso ac asesu tystiolaeth yn erbyn meini prawf sicrhau ansawdd
18. sut mae gwneud dyfarniadau gwrthrychol sy'n seiliedig ar dystiolaeth yn erbyn meini prawf sicrhau ansawdd a sut mae blaenoriaethu pwyntiau gweithredu ar gyfer gwella
19. pwysigrwydd tynnu sylw at feysydd o ymarfer da
20. sut mae paratoi adroddiadau sy'n seiliedig ar dystiolaeth gyda chanlyniadau y mae modd gweithredu arnynt a'u cyflawni
21. sut mae rhoi adborth adeiladol y mae modd gweithredu arno i ddarparwyr, gan gynnwys meysydd i'w gwella
22. sut mae cynorthwyo rheoleiddio emosiynol yn ystod asesiadau sicrhau

ansawdd

23. sut mae ymateb i faterion neu bryderon sy’n gysylltiedig ag asesiadau sicrhau ansawdd
24. pwysigrwydd adolygu gwelliannau o fewn amserlenni y cytunir arnynt
25. sut mae defnyddio dyfeisiau ac adnoddau digidol i arwain asesiadau sicrhau ansawdd
26. theorïau sy’n berthnasol i arwain asesiadau sicrhau ansawdd
27. y gofynion cyfreithiol, y safonau ymarfer, y fframweithiau a’r canllawiau perthnasol ar gyfer arwain asesiadau sicrhau ansawdd
28. gofynion y gweithle mewn perthynas â chydraddoldeb, amrywiaeth, cynhwysiant a hawliau wrth arwain asesiadau sicrhau ansawdd
29. sut mae eich profiadau personol a'ch rhagfarn ddiarwybod yn gallu effeithio wrth arwain asesiadau sicrhau ansawdd, a sut i fynd i'r afael â hyn
30. rôl goruchwyliaeth, ymarfer myfyriol, a dysgu a datblygu wrth arwain asesiadau sicrhau ansawdd

## Geirfa

Mae'r eirfa ar gyfer y Safon Alwedigaethol Genedlaethol hon ar gael ar wefan Sgiliau Gofal a Datblygu.

Arwain asesiadau sicrhau ansawdd

| | |
|---|---|
| **Datblygwyd gan** | Skills for Care & Development |
| **Fersiwn rhif** | 1 |
| **Dyddiad cymeradwyo** | 31 Ion 2026 |
| **Dyddiad Adolygu Dangosol** | 31 Ion 2031 |
| **Dilysrwydd** | Ar hyn o bryd |
| **Statws** | Gwreiddiol |
| **Sefydliad cychwynnol** | Skills for Care and Development |
| **RCU gwreiddiol** | HSCCLD419 |
| **Galwedigaethau perthnasol** | Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant |
| **Cyfres/Set** | Iechyd a Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant, Dysgu a Datblygu |
| **Geiriau Allweddol** | Asesiadau Sicrhau Ansawdd, Iechyd a Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant, Dysgu a Datblygu |